# Galwad am geisiadau:
# Cynllun Nawdd Llên er Lles

**Cyfle i awduron ac ymarferwyr celfyddydol**
**i ddyfeisio a gwireddu cyfres o weithdai ysgrifennu creadigol newydd**

**Dyddiad Cau:** 5.00 pm, Dydd Gwener 12 Gorffennaf 2019

## Beth yw'r cynllun?

Mae **Cynllun Nawdd Llên a Lles** yn cynnig cymorth ariannol a hyfforddiant i awduron ac artistiaid i ddyfeisio a chyflawni cyfres o weithdai ysgrifennu creadigol gwreiddiol yn y gymuned. Dylai pob prosiect gael ei ddyfeisio gan awdur/artist gyda grŵp arbennig mewn golwg. Mae'r cynllun yn rhan o fenter llenyddiaeth yn y gymuned Llenyddiaeth Cymru, **Llên Pawb**.

Cyfranogiad mewn llenyddiaeth yw un o'n prif flaenoriethau. Amcan **Cynllun Nawdd Llên a Lles** yw ysbrydoli rhai o'n hunigolion a'n cymunedau mwyaf ymylol drwy eu galluogi i gymryd rhan mewn gweithgareddau llenyddol.

Bydd rhwng pedwar a chwech sesiwn i bob cyfres o weithdai. Dylent fod yn arloesol a chynhwysol. Croesewir prosiectau traws-gelfyddydol yn ogystal. Dylai pob cyfres o weithdai gynhyrchu allbwn sydd wedi ei ddiffinio'n glir, er enghraifft, creu pamffled barddoniaeth, sioe arddangos, ffilm fer a dangosiad, gwaith celf neu gasgliad o ganeuon. Dylai'r holl gostau hyn gael eu cynnwys o fewn y cais.

Y mae **Cynllun Nawdd Llên a Lles 2019** yn awr ar agor ar gyfer ceisiadau gan awduron ac ymarferwyr creadigol.

## Pwy sy'n gallu ymgeisio?

Croesewir ceisiadau gan awduron, artistiaid, darlunwyr, gwneuthurwyr ffilm, cerddorion ac ymarferwyr creadigol eraill o Gymru neu sy'n byw yng Nghymru. Serch hynny, mae'n hanfodol fod gweithgaredd llenyddol yn ganolog i'r gyfres o weithdai. Mae Cynllun Strategol Llenyddiaeth Cymru 2019-22 i'w weld yma. Rydym yn argymell eich bod yn ei ddarllen cyn llunio eich cais.

## Grwpiau targed a nodweddion

Mae mynd i'r afael â diffyg cynrychiolaeth yn y sector yn un o brif flaenorethau ein Cynllun Strategol 2019-2022. At y diben hwn, rydym wedi adnabod tair nodwedd benodol, a bydd unigolion sy'n uniaethu â'r nodweddion hyn yn derbyn cefnogaeth ychwanegol drwy ein gweithgareddau. Rhain yw:

- Unigolion o gefndiroedd du, Asiaid neu leiafrif ethrnig (BAME)
- Unigolion o gefndiroedd incwm isel
- Unigolion sydd ag anableddau neu salwch (corfforol neu feddyliol)

Manylwch ar sut y bydd eich cyfres o weithdai yn addas i o leiaf un o'r grwpiau targed hyn, ac esboniwch natur gyffredinol y grŵp mewn golwg (e.e. oed, iaith, lleoliad).

## Pryd a ble fydd y weithgaredd yn digwydd?

Caiff yr ymgeiswyr llwyddiannus eu comisiynu i gynnal eu cyfres o weithdai rhwng Medi 2019 a 31 Mawrth 2020. Bydd yr union ddyddiadau yn cael eu cytuno gyda'r ymgeiswyr llwyddiannus cyn dechrau eu cyfres o weithdai.

Gellir lleoli'r gweithdai yn unrhyw ran o Gymru. Rydym yn croesawu ceisiadau am weithgaredd yn yr ardaloedd canlynol yn arbennig: Sir Gâr, Ceredigion, Sir Fflint, Sir Fynwy, Powys a Wrecsam.

## Sut i ymgeisio

I ymgeisio, anfonwch y wybodaeth isod i post@llenyddiaethcymru.org gyda'r teitl e-bost **Cynllun Nawdd Llên a Lles:**

- **Datganiad byr** (dim mwy na 600 gair) yn dweud pam yr hoffech gymryd rhan yn y cynllun a pham eich bod yn credu eich bod yn gymwys. Ymlinellwch eich syniad am brosiect ynghyd â'r grŵp yr hoffech weithio gyda nhw a pham. Hefyd nodwch o ble rydych chi'n gweithio, pa mor bell y byddech yn fodlon teithio, a oes ymarferwyr eraill ynghlwm â'r prosiect, ac a oes gennych chi brofiad o weithio gydag un o'r grwpiau a restrir uchod.
- **Eich CV,** a CV unrhyw ymarferydd arall a fydd yn cynnal gweithdai
- **Amlinelliad o gyllideb** o ddim mwy na **£1,500**, gan gynnwys gwaith datblygu, costau darparu (gan gynnwys ffioedd ar eich cyfer chi ac unrhyw ymarferwr arall), llogi ystafell, teithio a deilliannau prosiect ayyb.
- **Proffil o'ch cynulleidfa darged** (gweler uchod)
- **Ffurflen Cydraddoldeb ac Amrywiaeth** Llenyddiaeth Cymru (ar gael yma).

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

Mae Llenyddiaeth cymru yn rhan o gynllun Bwrseriaethau Creadigol Weston Jerwood, sy'n cefnogi sefydliadau celfyddydol i wella eu dulliau recriwtio a datblygu talent. Rydym wedi ymrwymo i groesawu ymdeiswyr o ystod helaeth o gefndiroedd, sy'n cynnwys asesu ceisiadau yn rhannol ar sail eu potensial.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw:

5.00 pm, Dydd Gwener 12 Gorffennaf 2019

Noder:

- Mae'n bosib y bydd gofyn i ymgeiswyr gael cyfweliad anffurfiol (a ellid ei gynnal dros Skype).
- Fe fydd gofyn i ymgeiswyr llwyddiannus gymryd rhan mewn diwrnod o hyfforddiant datblygiad proffesiynol yng Nghaerdydd neu yng Nghanolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd yn Llanystumdwy, Gwynedd. Bydd y diwrnod hyfforddiant yn cael ei drefnu gan Llenyddiaeth Cymru a bydd yn digwydd cyn dechrau eich cyfres o weithdai. Fe ddylid cynnwys unrhyw gost sy'n deillio o fynychu'r diwrnod hyfforddiant yng nghyllideb y prosiect.
- Fe fydd angen i ymgeiswyr llwyddiannus (a'u partneriaid / cyd-ymarferwyr os yn berthnasol) fod â gwiriad DBS manwl.

Am unrhyw gwestiynau neu os hoffech chi drafod syniad prosiect cyn ymgeisio, cysylltwch â ni:

post@llenyddiaethcymru.org / 029 2047 2266 / 01766 549490